30 Ebrill 2020

# Gwybodaeth atodol ynghylch dilysu tystiolaeth gan ganolfannau

## Cyflwyniad

Yn haf 2020, gofynnwyd i benaethiaid canolfannau ddarparu graddau asesu canolfannau, ar gyfer pob pwnc, ar gyfer eu myfyrwyr ac i osod eu myfyrwyr yn eu trefn restrol o fewn pob gradd. Dylai hyn fod yn adlewyrchiad teg, rhesymol ac ystyriol o'r radd y byddai myfyriwr yn fwyaf tebygol o fod wedi'i hennill pe byddai wedi sefyll ei arholiadau'r haf hwn ac wedi cwblhau asesiad di-arholiad. Darparwyd gwybodaeth gan y rheoleiddwyr ynghylch cyflwyno graddau asesu canolfannau a gwybodaeth trefn restrol gan ganolfannau.

Disgwylir i ganolfannau, lle y bo'n bosibl gwneud hynny, seilio eu penderfyniadau ar yr amrediad o dystiolaeth sydd ganddynt yn barod yn y ganolfan. Ym mwyafrif helaeth yr achosion, bydd digon o wybodaeth yn y ganolfan yn barod iddi allu ffurfio barn hyderus ynghylch perfformiad tebygol myfyriwr ym mhob pwnc.

Ond, mewn rhai achosion ni fydd yr amrediad llawn o dystiolaeth gan rai myfyrwyr ar gael i benaethiaid canolfannau fel sydd ar gael i fwyafrif myfyrwyr y ganolfan honno. Enghreifftiau o hyn fyddai:

- lle mae myfyriwr wedi trosglwyddo o un ganolfan i ganolfan arall ran o'r ffordd drwy gwrs;
- lle mae myfyriwr wedi dychwelyd i ganolfan i ailsefyll arholiad;
- lle mae myfyriwr â phroblemau iechyd parhaus wedi astudio rhywfaint y tu allan i amgylchedd yr ysgol;
- lle mae myfyriwr pwnc nad yw'r ganolfan yn ei gynnig fel mater o drefn wedi derbyn cefnogaeth allanol arbenigol; neu
- lle mae myfyriwr wedi astudio rhywfaint neu'n gyfan gwbl yn annibynnol, gan gynnwys unrhyw fyfyriwr a dderbyniodd ei addysg gartref.

Bwriad y nodyn hwn yw egluro ymhellach sut i gymhwyso gwybodaeth y rheoleiddwyr yn yr amgylchiadau hyn. Dim ond ar ôl gweld digon o dystiolaeth i brofi cyflawniad y myfyriwr i'w galluogi i ffurfio barn wrthrychol a chwblhau'r datganiad gofynnol a nodwyd yng ngwybodaeth y rheoleiddwyr yn hyderus y dylai Penaethiaid Canolfannau gyflwyno graddau asesu canolfannau a gwybodaeth am drefn restrol. Rhaid iddynt fod yr un mor hyderus wrth ffurfio eu barn ag y maent yn achos myfyrwyr eraill yn eu canolfan. Dylent hefyd fod wedi sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gwybodaeth y rheoleiddwyr.

Os nad yw pennaeth canolfan yn teimlo ei fod yn gallu dodo i benderfyniad am fyfyriwr penodol, mae'n bwysig cyfleu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl. Dylai pob myfyriwr fod yn gwbl glir am ei sefyllfa unigol ei hun.

## Tystiolaeth ym meddiant canolfannau eraill

Mewn achosion lle trosglwyddodd ymgeisydd o un ganolfan i ganolfan arall ran o'r ffordd drwy ei astudiaethau, efallai yr hoffai pennaeth y ganolfan bresennol gysylltu â'r ganolfan flaenorol i drafod pa dystiolaeth sydd ganddi. Efallai y bydd hyn yn cael ei ystyried wrth ffurfio barn os ydyn nhw'n hyderus i wneud hynny. Os byddai'n fwy priodol i'r ganolfan wreiddiol gyflwyno'r radd asesu a'r wybodaeth am drefn restrol, dylid tynnu'r cofrestriad presennol yn ôl a dylai'r ganolfan wreiddiol gofrestru'r myfyriwr o'r newydd.

Mewn rhai achosion, gall y myfyriwr fod wedi astudio gydag un ganolfan gymeradwyedig, darparwr dysgu o bell er enghraifft, ond wedi cofrestru mewn canolfan wahanol, megis ysgol neu goleg lleol. Yn yr achosion hyn, byddai'n synhwyrol i'r ganolfan sydd â'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth o gyflawniad tebygol y myfyriwr  fod yn gyfrifol am gyflwyno gradd asesu canolfannau ar ei gyfer ac i'w gynnwys yn ei gwybodaeth trefn restrol. Mewn rhai achosion, bydd angen trosglwyddo'r cofrestriad o un ganolfan i'r llall. Os felly, dylai'r ganolfan sy'n bwriadu cyflwyno'r radd asesu canolfannau gyflwyno cofrestriad newydd ar ran y myfyriwr a gofyn i'r ganolfan wreiddiol dynnu ei chofrestriad yn ôl. Dim ond ar ôl ymgynghori â'r ganolfan wreiddiol a'r myfyriwr, a chael eu cytundeb i wneud hynny, y dylid gwneud hyn.

## Lefelau o hyder

Dim ond os yw Penaethiaid Canolfannau wedi gweld digon o dystiolaeth i fod yn hyderus wrth ffurfio barn y dylid cyflwyno graddau asesu canolfannau. Rhaid i dystiolaeth o'r fath gydymffurfio â gwybodaeth y rheoleiddwyr a defnyddio, yn benodol, "*wybodaeth broffesiynol gyfannol, sy'n cydbwyso'r gwahanol ffynonellau o dystiolaeth".* Lle nad oes digon o dystiolaeth ym meddiant y ganolfan yn barod, a phennaeth y ganolfan am ystyried tystiolaeth o ffynonellau gwahanol, dylid dilyn y tabl canlynol wrth ystyried lefelau o hyder.

| Categori o dystiolaeth | Lefelau o hyder | Gofynion |
|---|---|---|
| Tystiolaeth a gynhyrchwyd dan oruchwyliaeth uniongyrchol y ganolfan e.e. aseiniadau dan oruchwyliaeth y ganolfan, asesiadau ymarferol neu ffug arholiadau<br><br>Tystiolaeth a gynhyrchwyd dan oruchwyliaeth sefydliad annibynnol y mae perthynas uniongyrchol rhyngddo a'r ganolfan e.e. tiwtor arbenigol<br><br>Tystiolaeth y mae modd ei dilysu'n uniongyrchol e.e. recordiad fideo o berfformiad cyhoeddus lle mae'n bosibl adnabod yr ymgeisydd yn rhwydd | Uchel | Mae tystiolaeth o'r categori hwn i'w ffafrio bob amser dros dystiolaeth o'r categorïau is lle y bo hynny ar gael<br><br>Dylai tystiolaeth o'r categori hwn fod yn dangos cyfran sylweddol o'r ymdriniaeth â'r fanyleb<br><br>Gall canolfannau oruchwylio aseiniadau ychwanegol neu ffug asesiadau er mwyn gallu sicrhau bod ymdriniaeth ddigonol â'r fanyleb |

| | | |
|---|---|---|
| Tystiolaeth a gynhyrchwyd yn annibynnol ond yn destun dilysu gan y ganolfan | Canolig | Dylai tystiolaeth o'r categorïau Uchel a Chanolig gyda'i gilydd sicrhau bod ymdriniaeth eang â'r fanyleb gyflawn<br><br>Gall canolfannau oruchwylio aseiniadau ychwanegol neu ffug asesiadau er mwyn gallu sicrhau bod ymdriniaeth ddigonol â'r fanyleb |
| Tystiolaeth a gynhyrchwyd yn annibynnol – h.y. heb oruchwyliaeth, neu dan oruchwyliaeth aelod o'r teulu, neu diwtor annibynnol nad oes gan y ganolfan unrhyw berthynas bresennol ag ef/hi | Isel | Ni ddylid dibynnu ar y dystiolaeth o'r categori hwn, onid oes dilysu gan y ganolfan wedi digwydd |

## Proses ddilysu canolfannau

Os na chynhyrchwyd tystiolaeth dan oruchwyliaeth uniongyrchol y ganolfan, dylai'r ganolfan gynnal ymarferiad dilysu cyn dibynnu ar y dystiolaeth honno er mwyn ffurfio ei barn. Yn y tabl canlynol dangosir sut y gellid cynnal proses ddilysu canolfannau drwy gynnal sawl sesiwn o bell gyda'r myfyriwr.

| | |
|---|---|
| Cadarnhau hunaniaeth | Wrth gynnal sesiynau o bell gyda myfyriwr dylai canolfan sicrhau ei bod yn gallu cadarnhau hunaniaeth y myfyriwr. Os nad oes gan y ganolfan gopïau o ddogfennau ID ffotograffig yn ei meddiant yn barod, dylai'r myfyriwr ddarparu'r rhain a dylid eu cadarnhau yn ystod sesiwn wyneb yn wyneb o bell gyda staff y ganolfan. |
| Cyflawniad blaenorol | Os yw'r myfyriwr yn gallu darparu tystiolaeth o gyflawniad blaenorol yn y pwnc, yna dylai ddarparu copïau electronig o dystysgrifau. |
| Datganiad myfyriwr wedi'i lofnodi | Pan gyflwynir tystiolaeth a gynhyrchwyd ar sail astudiaeth annibynnol i'w dilysu, dylai'r myfyriwr lofnodi'r datganiad myfyriwr canlynol:<br><br>*Rwy'n cadarnhau mai fy ngwaith fy hun yw'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'w hystyried yn rhan o'm gradd asesu canolfannau. Rwy'n deall, os byddaf yn cyflwyno gwaith a gynhyrchwyd gan rywun arall, neu os ydw i wedi derbyn gormod o gymorth wrth ei gynhyrchu, y bydd hyn yn cael ei ystyried yn gamymddwyn. Gall hynny olygu y gallaf gael fy nghosbi hyd at y gyfres arholiadau bresennol, yn cynnwys fy niarddel a'm hatal rhag sefyll cymwysterau am sawl blwyddyn.* |

| | |
|---|---|
| Archwilio tystiolaeth yn y lle cyntaf | Gall canolfannau gynnal sesiwn gychwynnol o bell i drafod y dystiolaeth sydd ar gael â'r myfyriwr. Bwriad gwneud hyn yw galluogi'r ganolfan i ddod i ddeall amodau cynhyrchu'r dystiolaeth a gyflwynwyd.<br><br>Bydd y ganolfan am ystyried y dystiolaeth yn fanylach ar ôl y sesiwn hon er mwyn penderfynu'r graddau mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn cyfateb i ofynion y fanyleb, ac i nodi unrhyw fylchau o ran yr ymdriniaeth honno neu bryderon ynghylch dilysrwydd y dystiolaeth. |
| Dilysu tystiolaeth | Gall canolfannau gynnal nifer o sesiynau dilysu o bell gyda'r myfyriwr. Yn ystod y sesiynau hyn gellir holi'r myfyriwr o ran ei ddealltwriaeth o gynnwys y pwnc sydd i'w weld yn rhai darnau penodol o dystiolaeth. Gwneir hyn er mwyn i'r ganolfan fod yn fwy fwy hyderus mai gwaith y myfyriwr ei hun yw hwn.<br><br>Gellid gweithredu fel hyn er mwyn sicrhau bod modd bodloni'r gofynion i gael y canran lleiaf o dystiolaeth i ddangos hyder Uchel a Chanolig. Ni ddylai canolfannau ddibynnu ar unrhyw ddarn o dystiolaeth os nad ydynt yn fodlon ei fod yn ddilys. |
| Asesiadau o bell | Lle bo angen gwneud hynny, gall canolfannau ganiatáu i'r myfyriwr gyflawni asesiad ychwanegol a osodir gan y ganolfan i'w arsylwi o bell gan staff y ganolfan. Gallai hyn gynnwys y canlynol, er enghraifft: ffug asesiad wedi'i ddyfeisio gan y ganolfan neu aseiniad wedi'i osod gan y ganolfan sy'n targedu rhan benodol o'r fanyleb.<br><br>Pan osodir ffug asesiadau yn ystod y broses ddilysu, ni ddylent gynnwys cyn bapurau sydd ar gael i'r cyhoedd. Dylai'r ganolfan lunio ffug asesiad newydd. Argymhellir, fodd bynnag, ei bod yn defnyddio adnoddau'r sefydliad dyfarnu wrth eu llunio er mwyn sicrhau bod math a lefel yr her yn briodol.<br><br>Gellid gweithredu fel hyn er mwyn sicrhau bod y canran lleiaf o dystiolaeth i ddangos hyder Uchel wedi'i bodloni ac er mwyn allu ei defnyddio wrth gymharu â thystiolaeth arall sydd ar gael. |

## Cadw tystiolaeth

Dylai pennaeth y ganolfan sicrhau bod yr holl dystiolaeth y dibynnwyd arni wrth ddod i'w penderfyniad wedi'i chadw rhag ofn y bydd y sefydliad dyfarnu'n gofyn am gael ei gweld yn nes ymlaen. Mae hyn yn cynnwys unrhyw dystiolaeth o ddilysu gan y ganolfan lle y digwyddodd hyn.

## Derbyn cofrestriadau newydd gan ymgeiswyr

Os cofrestrodd ymgeisydd am arholiad fel 'ymgeisydd preifat' cyn 19 Mawrth 2020, a'r ganolfan wreiddiol wedi cadarnhau nad yw'n gallu ei gynnwys yng nghyflwyniad y ganolfan, gall fod yn bosibl trosglwyddo'r cofrestriad i ganolfan newydd sydd yn gallu dilysu tystiolaeth o lefel ei gyflawniad at ddibenion cyflwyno gradd asesu canolfannau a gwybodaeth am drefn restrol.

Bydd y broses hon ar gael i fyfyrwyr y byddent dan anfantais fel arall pe na byddai gradd wedi'i dyfarnu iddynt yn Haf 2020. Enghraifft o hyn fyddai lle byddai'n eu hatal rhag symud ymlaen i gam nesaf eu hastudiaethau neu i gyflogaeth.

Os nad oes gan ganolfan berthynas flaenorol â'r myfyriwr ni ddylent dderbyn cais i drosglwyddo cofrestriad myfyriwr newydd, onid ydyn nhw wedi cael caniatâd y sefydliad dyfarnu perthnasol ymlaen llaw. Mae'n rhaid i'r sefydliad dyfarnu fod yn fodlon y gall y ganolfan gydymffurfio â gwybodaeth y rheoleiddwyr a'r wybodaeth atodol yn y ddogfen hon cyn y gall roi'r caniatâd hwnnw. Mae angen bod yr un mor sicr y bydd y ganolfan yn gallu cynhyrchu gradd asesu canolfannau a gwybodaeth am drefn restrol yn yr un modd â'r myfyrwyr eraill sydd ganddi.

Gan y seilir y broses hon ar ddilysu tystiolaeth sy'n bodoli'n barod, ni ddylid derbyn cofrestriadau myfyrwyr onid yw'r myfyriwr yn gallu darparu amrediad o dystiolaeth a gynhyrchwyd yn ystod cyfnod ei astudiaeth sydd gyda'i gilydd yn ymdrin â mwyafrif cynnwys y cwrs o fewn y fanyleb.

Bydd angen i'r canolfannau hynny sy'n gofyn caniatâd i dderbyn trosglwyddiad cofrestriad myfyriwr newydd, nad oes ganddyn nhw unrhyw berthynas flaenorol â'r unigolyn hwnnw, gyflwyno manylion y broses ddilysu maent yn bwriadu ei defnyddio. Dylent nodi yn y manylion hynny sut maent yn bwriadu sicrhau'r lefel angenrheidiol o hyder yng nghyflawniad tebygol y myfyriwr. Rhaid i unrhyw gyflwyniadau gan ganolfannau gael eu gwrthlofnodi gan rywun sydd â'r lefel briodol o annibyniaeth ac awdurdod, er enghraifft Cadeirydd y Llywodraethwyr, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, partner Awdurdod Lleol neu archwiliwr allanol. Gwneir hyn er mwyn dangos bod prosesau'r ganolfan wedi bod yn destun trefn lywodraethu briodol. Bydd sefydliadau dyfarnu hefyd yn cynnal trefn fonitro allanol ar y canolfannau.